

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 9fed Hydref, 2017, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 9.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)
 Y Cynghorydd Glenys Williams (Is-Gadeirydd)
 Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts
 Ymddiheuriad : Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

49. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ar nodyn trist a hynny yn dilyn marwolaeth Y Cynghorydd Harry Richards yn ystod y mis. Amgaeëir copi o deyrnged Y Cynghorydd Carys E. Williams i'r Cynghorydd Richards.
 Safwyd am funud fel arwydd o barch at yr aelod.

50. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw aelod yn datgan buddiant personol.

51. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 11eg Medi, 2017.

MATERION YN CODI

(1) Eitem 39 – Ymweliad Dr. O.G. Morris o Feddygfa Rhydbach

Cyflwynwyd ymateb Cwmni Bysiau Berwyn i gais y Cyngor am iddynt aros ennud ger y Feddygfa ym Motwngog er rhoddi cyfle i'r cleifion gael amser i fynd ar y bus.

Dywedodd y Cwmni eu bod wedi ystyried y cais yn ddwys ond "yn anffodus mae'n anodd iawn i'w weithredu. Fel y gwyddoch, ar ran Cyngor Gwynedd, yr ydym yn ei redeg ac mae ganddynt hwy amodau i ni gadw atynt, e.e. monitor ein bod yn cadw at yr amserlen penodedig, ac os nad ydym, cawn ddirwy ariannol. Yn ogystal a hyn, ni fyddwn yn gwybod os bydd rhywun eisiau dod bob tro mae'r bus yn pasio, a bydd hyn yn peri pblemth i'r gyrrwyr. Gan fod nifer o wahanol yrrwyr gennym ar siwrneau gwahanol yn ystod y dydd, nid yw'n angenrheidiol mai'r un gyrrwr fydd wedi gollwg y claf yn y Feddygfa a fydd yn ei godi yn nes ymlaen yn y dydd, felly mae'n sefyllfa amhosibl i sicrhau y buasai un gyrrwr wedi addo codi/aros am y claf.

O ystyried iechyd a diogelwch yn gyffreidnol, dim ond mewn man swyddogol, h.y. safle bws penodedig y gallwn aros am amser hir, felly nid yw aros ger mynedfa eich maes parcio ychwaith yn saff i neb.”

O berthynas i'r ymholiad i'r Cynghorydd Glyn Roberts am adeiladu arosfan bws, dywedodd nad oedd yn bosibl iddo ymgymryd a'r gwaith.

Penderfynwyd nodi'r atebion uchod.

(2) *Eitem 41 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) Eitem 34 – Materion Ffyrdd*

Cyflwynwyd ymateb Uwch Reolwr Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd, i gais y Cyngor am arwyddion i ddynodi Eglwys St. Mair a Ffynnon Fair, Bryncroes. Dywedodd y Swyddog ei fod yn “cefnogi eich cais mewn egwyddor, fodd bynnag bydd angen asesu'r safle cyn cadarnhau'r niferoedd o arwyddion a'u lleoliadau.”

Aeth y Swyddog yn ei flaen i ddweud fod yn rhaid “nodi na fydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gostau'r arwyddion nac am eu gosod, bydd rhaid i hyn gael ei gwrdd gan y Cyngor Cymuned neu'r Eglwys.

Fel arfer, mae arwydd ar bostyn newydd yn costio oddeutu £250-£300 yr un, ond wrth gwrs mae hyn yn ddibynnol ar maint yr arwydd.”

Os oedd y Cyngor yn dymuno symud ymlaen byddai'r Swyddog yn trefnu asesiad o'r safle.

Penderfynwyd gofyn i'r Swyddog wneud asesiad ac adrodd yn ôl gyda phris a lleoliad.

(3) *Eitem 44 – Materion Ffyrdd*

(i) **Cyflwynwyd** ymateb y Peiriannydd Rhanbarthol, Ardal Dwyfor i gwynion anfonwyd i'w sylw fel a ganlyn:

“Groeslon Siop Lwyd, Bryncroes

Ni ellir ystyried y tyfiant ar y clawdd yn ‘ordyfiant’ na ‘rhwystr’ i ystyr Adran 154, Deddf Priffyrdd 1980. Gan hynny, ni ellir cyfiawnhau ymarfer pwerau dewisol Adran 154 ar hyn o bryd. Drwg gennyf eich hysbysu hefyd nad yw'r amgylchiadau ariannol yn caniatáu ystyried paratoi mân welliant diogelwch, megis Adran 79 Deddf Priffyrdd, yn y lleoliad ychwaith.

Tyllau Edrych

Mae'r gwaith o lanhau'r ddarpariaeth draenio nodwyd gennych wedi ei gynnwys ar raglen waith y gweithlu.”

(ii) **Cyflwynwyd** ymateb Mr. Steffan Jones, Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, i'r cwynion ynglyn a'r ysbwriel a adewir ar ôl gan y tîm ailgylchu, fel a ganlyn:

“Mae'r mater o godi deunyddiau sydd wedi syrthio o'r cart/bocs ailgylchu wedi ei drafod gyda'r gweithlu ar sawl achlysur gan y byddai disgwyl iddynt godi'r deunyddiau. Yr ydym wedi eu hatgoffa unwaith yn rhagor gan drefnu gwaith monitro.

Mewn perthynas a'r ail bwynt, dylai gwelliant fod wedi bod gyda deunyddiau yn colli o'r cerbydau. Mae fflyd newydd o gerbydau ailgylchu mewn defnydd nawr sydd wedi gwneud i ffwrdd a phroblem deunyddiau yn colli o'r cerbyd casglu.

‘Rwyf yn bryderus o nodi bod hyn yn dal yn parhau yn broblem.’

Gofynnod y Swyddog a oedd gan y Cyngor enghraifft/dyddiad/lleoliad/rhif cerbyd lle mae'r broblem yn bodoli.

Aeth y Swyddog yn ei flaen i ddweud fod “ailgychlu yn hynod bwysig ac mae yn ofynnol arnom erbyn hyn er cyrraedd targedau statudol Llywodraeth Cymru.”

Tynnodd Y Cyngorydd Glyn Roberts sylw at ysbwriel yn cael ei adael ar y ffordd rhwng Tyddyn Isa a Thy Mawr Capel ar 5ed Hydref, 2017.

Hefyd dywedodd y Cyngorydd Glenys Williams fod ei gŵr eisoes wedi ffonio i gwyno am yr ysbwriel a adewir ar ymyl y ffordd ger eu cartref.

Penderfynwyd anfon y gŵyn ymlaen at yr Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

(4) Eitem 45 – Toiled Cyhoeddus yn Sarn Mellteyrn

Adroddodd y Clarc i Mr. Darren Morley, Rheolwr Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog, ymateb yn gadarnhaol gan ddweud gall y cyhoedd defnyddio'r toiledau sydd ar y safle.

Cyflwynwyd ymhellach ymateb Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil Dadansoddeg, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd, yn cadarnhau y bydd y ddarpariaeth o toiledau cyhoeddus ym mhentref Sarn Mellteyrn yn dod i ben ar 1af Hydref, 2017.

Roedd y Clarc eisoes wedi ysgrifennu ati er cael arwydd ym Motwnnog i ddynodi lleoliad y toiled yng Nghanolfan Congl Meinciau ond 'roedd y Swyddog ar ei gwyliau a byddai'n ymateb pan ddychwelai.

Adroddwyd ymhellach fod Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngor Sir, wedi siarad gyda thenantiaid Tafarn Ty Newydd, Sarn ynglyn a'r posibilrwydd o'r cyhoedd gael defnyddio eu cyfleusterau ac roeddynt “yn fwy na bodlon i'r cyhoedd gael defnyddio toiledau y dafarn yn ystod oriau agor.” ‘Roedd y Cyngorydd Williams eisoes wedi siarad gyda Swyddog yng Nghyngor Gwynedd ac addawyd anfon pamffled a ffurflen gais at y tenantiaid iddynt ei chwblhau a'i hanfon yn ôl mor fuan a bo modd ac yna byddai “Ty Newydd wedyn yn cael ei roi ar y rhestr ceisiadau, i gael ei ystyried gan y Cyngor ddechrau'r flwyddyn (tua mis Mawrth) ac os yn llwyddiannus, byddant yn derbyn grant o £500 gan y Cyngor i wneud unrhyw waith adnewyddu sydd ei angen ar y toiledau.”

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(5) Eitem 47 – Archwilio'r Cyfrifon

a) **Cyflwynwyd** ymateb Mr. Dylan Jones, Swyddog Cydymffurfio o Swyddfa'r Comisiynydd y Gymraeg, mewn ymateb i sylw'r BDO i ddarparu wefan yn y Gymraeg a'r Saesneg fel a ganlyn:

“Ar sail y wybodaeth yr ydych wedi'i ddarparu, nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn cyd-fynd â gofynion Cwmni BDO Southampton, sef **“dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 dylai'r wefan fod yn Gymraeg a Saesneg.”**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn dweud fod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac fe roddir effaith gyfreithiol i'r statws hwnnw drwy gyfrwng deddfiadau ynghylch dilysrwydd defnyddio'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

I grynhoi felly, nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993, na Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod unrhyw ofyniad arnoch i ddarparu'r wefan yn y Gymraeg a'r Saesneg."

Penderfynwyd nodi'r sylwadau a glynu at wefan Gymraeg i'r Cyngor. Y Clarc i gysylltu â Ms. Selina Jones, Llanw Llyn, er ceisio rhoi gwefan y Cyngor ar waith.

b) *Cofrestru buddiannau'r aelodau.*

(i) Adroddiad y Clarc ei bod wedi edrych i fewn i'r dull o gadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau ac wedi derbyn copi drwy'r Cyngorydd Carys H. Evans o ffurflen a ddefnyddir gan Lywodraethwyr Ysgolion (hyn gyda diolch i'r aelod).

(ii) E-bost gan Un Llais Cymru ynghyd a ffurflen datgeliad a chofrestriad aelodau'r Cyngor. Anfonwyd ffurflen allan i bob aelod gyda'r rhaglen gan ofyn iddynt ei chwblhau a'i dychwelyd i'r cyfarfod. Derbyniwyd nifer ond rhaid cael ffurflen wedi ei llenwi gan bob aelod.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

52. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd cais C17/0894/32/LL – cais ol-weithredol i gadw estyniad cefn unllawr a gwelliannau i gynnwys codi lefel brig y to a ffenestri gromen i'r drychiad blaen – Y Bwthyn, Sarn.

Yn absenoldeb Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, derbyniwyd copiau o llythrau gan wrthwynebydd i'r cais – y llythyr wedi ei gyfeirio at yr Adran Cynllunio gyda chopi i'r Cyngorydd Sir a pherson arall. Ym marn y Clarc gan nad oedd copi o'r llythyr wedi dod i'r Cyngor Cymdeithas na'i gopïo iddynt, na allai'r Cyngor ystyried ei gynnwys. Rhoddwyd digon o gyfle i'r aelodau gael y wybodaeth oedd yn y llythyr ond mynegodd y Clarc y byddai'n cofnodi mai ar gais yr aelodau 'roedd wedi darllen y llythyr – ni dderbyniwyd cais o'r fath.

Yn dilyn trafodaeth hir a chymleth, dywedodd cyn aelod Botwnnog ar Gyngor Gwynedd, (a oedd wedi bod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio, Cyngor Gwynedd am rai blynyddoedd), mai'r cais oedd gerbron oedd angen ei drafod yn unig.

Penderfynwyd cefnogi'r cais ar sail y wybodaeth oedd o'n blaenau ar y noson.

(O blaid y cynnig a'r cefnogi 7 aelod, 1 yn gwrthwynebu ac 1 yn atal pleidlais)

53. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen.

54. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd :

(a) Gofyn i'r Adran Priffyrdd roddi sylw i:

- (i) Lôn Anwyl, Botwnnog – angen arwydd anaddas i gerbydau trymio yn dilyn y llanastr fu pan aeth lori i drafferth yn gynharach yn yr wythnos.
- (ii) Gyflwr y ffordd o Graig Ewig i lawr am benlon Muriau, ac o Graig Ewig am Fferm Graig Fael, Bryncroes.
- (iii) Anen barbio o amgylch yr arwydd 40 mya ger Penygroeslon Bach, Penygroeslon.

(b) Gofyn i'r Heddlu ymweld ag ardal Penygroeslon gan fod cryn yrru ar y safle er fod arwydd 40 mya bellach wedi ei osod o bobtu'r groeslon.

(c) Gwneud ymholiadau pa bryd y bydd yr arwydd 40 mya yn cael ei osod ym mhentref Sarn Mellteyrn.

55. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Swyddfa Archwilio Cymru £189.45 (dim TAW)

56. **LLYWODRAETHWYR CYMUNEDOL YCHWANEGOL YSGOLION
GWYNEDD**

Cyflwynwyd llythyr Mrs. O. Mai Bere, Swyddog Addysg Ardal Cynorthwyol, Cyngor Gwynedd, yn gofyn am enwebiad ar gyfer y swydd o Lywodraethwr yn Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog. Gan i'r Cynghorydd Carys H. Evans gael ei hail-ethol yn ddiwrthwynebiad i gynrychioli Ward Botwnnog, nid oedd angen ethol Llywodraethwr newydd.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.